Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gellifedw
# Heol Nant Bran
# Gellifedw
# SA7 9LS

# Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gellifedw

Mae Ysgol Gynradd Gellifedw yn gwasanaethu ardal Gellifedw yn Abertawe. Mae 427 o ddisgyblion ar y gofrestr, rhwng 3 ac 11 oed. Mae disgyblion wedi eu trefnu'n 16 dosbarth. Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Tachwedd 2013. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2014.

Y cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yw tua 21%. Mae'r ffigur hwn ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 18%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 30% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef tua 21%. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da, o leiaf, o'u mannau cychwyn, tra bydd ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn. Maent yn unigolion hapus a hyderus gyda chwilfrydedd brwd, y mae'r ysgol yn eu meithrin yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn mwynhau'r cyfleoedd niferus a gânt i fod yn rhan o un o'r grwpiau arwain sefydledig yn yr ysgol, ac o'r herwydd, maent wir yn teimlo bod eu cyfraniad at 'Ffordd Gellifedw' ('The Birchgrove Way') yn cael ei werthfawrogi.

Mae athrawon yn annog disgyblion yn llwyddiannus iawn i gyfrannu'n llawn at eu dysgu, trwy gynllunio'r cwricwlwm ac wrth asesu eu cynnydd eu hunain. Mae staff yr ysgol yn adnabod eu disgyblion yn eithriadol o dda ac yn gyflym i nodi unrhyw fregusrwydd a allai rwystro eu cynnydd. Mae staff gwybodus yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn cael cymorth teilwredig er mwyn iddynt allu ffynnu mewn amgylcheddau dysgu blaengar.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer yr ysgol a'i chwricwlwm. Mae pawb yn yr ysgol yn deall y weledigaeth hon yn llwyddiannus ac, o ganlyniad, maent yn gweithio gyda'i gilydd fel cymuned. Dros gyfnod, mae'r ysgol wedi ysgogi gwelliannau yn llwyddiannus, ac wedi cynnal y rhain mewn ffordd ystyrlon. Cyflawnwyd llawer o hyn trwy gefnogi dysgu proffesiynol y staff a chryfhau perthnasoedd â rhieni.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Rhannu arfer dda mewn addysgu a dysgu, gan gynnwys yn yr awyr agored, ar draws yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith ynglŷn â'r dysgu proffesiynol yn yr ysgol, a hefyd ar gyfer ei gwaith yn codi lefelau presenoldeb, ac yn cynnal y rhain dros gyfnod, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da, o leiaf, wrth ddatblygu eu medrau o'r mannau cychwyn, ac mae ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd da iawn. Mae hyn yn cynnwys disgyblion ag anghenion arbennig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn o ran datblygu eu medrau siarad a gwrando yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Yn y meithrin, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar chwedlau traddodiadol ac maent yn awyddus i ateb cwestiynau neu gynnig barn am yr hyn y maent wedi'i glywed. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth drafod yr hyn y maent wedi'i ddysgu, ac yn siarad am eu gwaith â balchder. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 5 yn hyderus ac yn trafod ag eglurder y *collage* geiriau y maent wedi'i wneud am fywyd yn Oes Fictoria. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hynod huawdl a hyderus wrth greu a chyflwyno eu syniadau. Mae ychydig o ddisgyblion yn cynllunio ac yn cynhyrchu fideo difyr ac addysgiadol i helpu eu cyfoedion i aros yn ddiogel ar-lein ac yn addasu'n fedrus y modd y maent yn siarad er budd eu cynulleidfa.

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ffoneg sylfaenol cryf yn gyflym, ac yn cymhwyso'r rhain yn effeithiol yn eu hysgrifennu annibynnol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth o seiniau mwy cymhleth ac yn darllen a deall testunau cynyddol heriol. Maent yn hyderus wrth drafod yr hyn y maent wedi'i ddarllen ac yn gwneud rhagfynegiadau gwybodus am yr hyn a allai ddod nesaf. Erbyn Blwyddyn 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i ddarllen a dadansoddi llyfrau mwy cymhleth, fel 'Charlotte's Web'. Erbyn Blwyddyn 6, mae bron pob un o'r disgyblion wedi astudio ystod eang o ffurfiau fel symbyliadau. Mae hyn yn cynnwys gwerthfawrogiad manwl o'r iaith a'r themâu yng ngherdd Wilfred Owen, 'Dulce et Decorum Est.'

Mae llawer o ddisgyblion yn y meithrin yn mwynhau creu marciau ac mae llawer ohonynt yn dechrau sillafu eu henw eu hunain. Erbyn Blwyddyn, 2 mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gynyddol estynedig, gan ddefnyddio amrywiaeth o ffurfiau. Maent yn ysgrifennu adroddiadau am Dân Mawr Llundain cyn creu eu storïau bywiog eu hunain ynghylch 'Tân Mawr Gellifedw' ('Great Fire of Birchgrove') gan ddefnyddio geirfa fanwl a bywiog, er enghraifft "the whole of Birchgrove was destroyed in seven minutes". Ym Mlwyddyn 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynllunio llythyrau ac yn eu hysgrifennu'n llwyddiannus gan ddefnyddio'r nodweddion cywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gref o sillafau, er enghraifft wrth ysgrifennu cerddi Haiku am yr hydref. Mae llawer o ddisgyblion yn dewis geirfa hynod ddychmygus i ennyn diddordeb eu darllenydd yn llwyddiannus, er enghraifft "the quirky parents cartwheeled to the crystal clear water and cannonballed into the pool". Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio bachau a chwestiynau rhethregol yn hynod effeithiol i agor eu hysgrifennu. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n empathig o safbwynt milwr rhyfel wedi'i anafu, er enghraifft "the doctors arrived at the speed of a snail". Mae bron pob un o'r disgyblion yn golygu ac yn gwella eu gwaith yn effeithiol, gan ddewis a defnyddio cyffelybiaethau, trosiadau neu bersonoli yn aml i fywiogi eu hysgrifennu.

Yn y meithrin, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd cynnar effeithiol. Er enghraifft, maent yn cyfrif gwrthrychau i 10 a thu hwnt yn annibynnol. Trwy'r cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn adeiladu ar y medrau hyn, ac erbyn Blwyddyn 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddarllen, ysgrifennu a threfnu rhifau tri digid. Maent yn lluosi, rhannu a haneru rhifau a gwrthrychau i 100. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn talu am nwyddau ac yn rhoi newid cywir o bunt. Maent yn dehongli data ac yn defnyddio siartiau cyfrif i gofnodi gwybodaeth yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio centimetrau a metrau â chywirdeb cynyddol. Ar ddechrau cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio gyda rhifau i 1000 yn hyderus, yn aml yn datrys problemau gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau sy'n gyfarwydd iddynt. Maent yn cyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau syml yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio diagramau Venn i ddidoli gwybodaeth, ac yn creu siartiau bar a siartiau cylch yn gywir o'r amrywiaeth eang o ddata y maent yn ei gasglu. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n hyderus gyda rhifau mawr, ac yn trosi arian cyfred yn gywir. Trwy eu gwaith trawsgwricwlaidd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau her defnyddio ffracsiynau a symiau clorian i addasu ryseitiau ar gyfer gwahanol niferoedd o bobl, er enghraifft wrth drefnu gwledd Fictoraidd. Mae disgyblion yn cyfrifo arwynebedd siapiau mwy cymhleth yn gywir, gan gynnwys trionglau, a maint onglau.

Mae safonau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gryf iawn ar draws yr ysgol. Yn y meithrin, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau deall beth yw neges e-bost, ac mae llawer o ddisgyblion yn dechrau arbed eu gwaith. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn hyderus i gefnogi eu dysgu i greu siartiau cylch a graffiau bar, er enghraifft yn gysylltiedig â her arian poced. Ym Mlwyddyn 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymchwilio'n gynhwysfawr i wledydd, ac yn creu cronfeydd data diddorol. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn creu eu hymchwiliad eu hunain i gymharu tymereddau, yn sgil diddordeb mewn newyddion amserol ar y tanau llwyni yn Awstralia. Defnyddiant y wybodaeth hon i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio cyfrifiadur rhaglenadwy bach i ragweld achosion o danau llwyni.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dysgu Cymraeg. Maent yn frwdfrydig ac yn siarad ag ynganiad da. Yn y dosbarth derbyn, mae bron pob un o'r disgyblion yn canu caneuon Cymraeg yn frwdfrydig ac yn enwi rhannau o'r corff yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 1, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dysgu seinio llythrennau'r wyddor Gymraeg yn gywir, ac ym Mlwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth gymryd rhan mewn sgwrs ystyrlon. Ym Mlwyddyn 5, mae bron pob un o'r disgyblion yn darllen stori Oliver Twist gan ddefnyddio tonyddiaeth i ddangos eu dealltwriaeth. Erbyn Blwyddyn 6, gall disgyblion ysgrifennu'n wybodus am wledydd eraill.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau lles eithriadol o uchel. Maent yn mwynhau'r ysgol, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu. Mae perthnasoedd gwaith rhwng disgyblion a staff yn rhagorol, ac mae hyn yn helpu bron pob un o'r disgyblion i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Un o nodweddion cryf iawn yr ysgol yw'r parch a'r cwrteisi a ddangosir gan ddisgyblion tuag at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn eithriadol o dda. Maent yn ymdawelu mewn gwersi yn gyflym ac yn symud rhwng tasgau yn synhwyrol ac yn effeithlon. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn bwyllog ac yn gyfrifol yn y dosbarth, ac wrth symud o gwmpas yr ysgol. Mae eu parodrwydd i weithio'n unigol, mewn parau ac mewn grwpiau, yn nodwedd ragorol yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymfalchio'n fawr yn eu gwaith, ac mae cyflwyniad eu gwaith mewn llyfrau yn adlewyrchu hyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos gwydnwch wrth gwblhau tasgau heriol. Mae pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn cynllunio eu prosiectau tymhorol, ac mae hyn yn arwain at lefelau uchel iawn o ddiddordeb ac ymgysylltiad yn eu gwaith. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r cyfle i weithio'n rheolaidd ochr yn ochr â'u rhieni, er enghraifft gyda'u prosiectau menter pobl ifanc, ac mae hyn yn cymell disgyblion ymhellach. Ym Mlwyddyn 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad yn frwdfrydig am eu testun ar dân a dreigiau lle daeth pob un o'r disgyblion yn 'Ddraigolegwyr' ('Dragonologists').

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n saff yn yr ysgol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel, gan gynnwys wrth weithio a chwarae ar-lein. Cefnogir hyn yn dda gan waith y grŵp diogelwch ar-lein, sef 'smart scouts'. Er enghraifft, fe wnaethant ddefnyddio technoleg sgrin werdd, creu cerddoriaeth ac apiau fideo i gynhyrchu ffilm fer ar gyfer eu cyfoedion am beryglon gwneud ffrindiau newydd ar-lein.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau iach wrth ddewis byrbryd a chynnwys eu cinio pecyn. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn mwynhau blasu bwydydd iach, a gall y rhan fwyaf o ddisgyblion esbonio'r angen i fwyta cydbwysedd o wahanol grwpiau bwyd i gynnal diet iach. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n heini, ac maent yn deall bod gan ymarfer corff ran allweddol mewn cadw'n iach.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau da iawn o ganolbwyntio yn eu gwaith, ac maent yn awyddus i wneud cynnydd yn eu dysgu. Maent yn gweithio'n galed ac yn cwblhau tasgau dysgu i safon uchel. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn eu gwerthfawrogi'n fawr fel unigolion ac mae hyn yn cyfrannu at welliannau yn eu hunanhyder a'u cynnydd wrth iddynt symud trwy'r ysgol. O oedran cynnar iawn, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith, ac erbyn cyfnod allweddol 2, mae hyn yn gadarn iawn.

Mae disgyblion yn coleddu'r cyfleoedd niferus a gânt i ymgymryd â rolau arwain yn frwdfrydig, ac mae hon yn nodwedd gref iawn yn yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol, y llysgenhadon hawliau, y criw Cymraeg ac arweinwyr digidol 'smart scouts' ymhlith ystod eang o grwpiau arwain o fewn yr ysgol. Mae aelodau'n cymryd eu rolau yn ddifrifol iawn ac yn llunio cynlluniau sy'n cynnwys manylion am eu camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod yn glir iawn. Maent yn cynrychioli ac yn cynorthwyo disgyblion eraill yn aeddfed. Er enghraifft, mae pwyllgorau disgyblion yn rhannu cyflwyniadau o'u gweledigaeth ar gyfer yr ysgol mewn gwasanaethau ac wedi cymryd cyfrifoldeb am newid y ffordd y mae amser aur yn gweithredu. Arweiniodd hyn at ddewis estynedig o weithgareddau i bawb eu mwynhau. Mae'r grŵp arwain disgyblion, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r grwpiau disgyblion eraill, yn cyfarfod â'r uwch dîm rheoli, llywodraethwyr a'r pennaeth i wneud penderfyniadau strategol am yr ysgol. Yn ddiweddar, maent wedi cynnal sgyrsiau am uwchraddio rhywfaint o gyfleusterau disgyblion sydd wedi mynd yn ddi-raen dros gyfnod.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth werth chweil o gynaliadwyedd trwy waith y pwyllgor eco a monitoriaid amser cinio iach. Maent yn mynd ati i annog pobl eraill i leihau'r defnydd o blastig o gwmpas yr ysgol, yn ogystal â bwyta'n iach. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o'r hyn y gellir ei ailgylchu ac yn cefnogi'r rhaglen hon yn frwdfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth fuddiol o gydraddoldeb a thegwch trwy raglenni addysg bersonol a chymdeithasol datblygedig a digwyddiadau ysgol gyfan, er enghraifft gweithdai coginio cyffrous â rhieni, ac ymweliadau â Bae Abertawe i gasglu sbwriel. O hyn, cafodd rhywfaint o'r broc môr a gasglwyd ei uwchgylchu yn ddarnau o grefft i'w gwerthu yn y ffair Nadolig i godi arian ar gyfer cronfa ddatblygu'r pwyllgor eco.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r perthnasoedd cryf a pharchus rhwng staff a disgyblion yn gryfder rhagorol yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn derbyn gofal ac yn cael eu gwerthfawrogi, ac o ganlyniad, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae pob un o'r staff yn sefydlu disgwyliadau uchel o gyflawniad ac ymddygiad disgyblion, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb iddynt yn gadarnhaol iawn.

Mae bron pob un o'r athrawon yn annog disgyblion i ddatblygu annibyniaeth a gwydnwch trwy ddyfalbarhau â thasgau neu ddefnyddio strategaethau penodol ar gyfer hunangymorth. Mae hyn yn cynnwys yr amgylchedd dysgu ag adnoddau da y maent wedi'i greu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn rhoi problemau heriol i ddisgyblion, ac yn eu haddysgu ynghylch strategaethau effeithiol i'w datrys. Mae hyn yn helpu creu diwylliant gwerthfawr o ddysgu annibynnol. Er enghraifft, mae disgyblion yn siarad â'u cymdogion ac yn trafod y strategaethau y byddant yn eu defnyddio, gan wneud sylwadau fel "the column method will be faster to use today than chunking". Mae gan athrawon wybodaeth dda iawn am eu pynciau ac maent yn cymhwyso ystod eang o arddulliau addysgu effeithiol yn llwyddiannus iawn. Mae bron pob un o'r staff yn addysgu ar gyflymdra da ac yn defnyddio holi hynod effeithiol i asesu'r cynnydd a wna disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi ac yn cynhyrchu gwaith o ansawdd uchel y maen nhw, a'u hathrawon, yn falch ohono.

Mae pob un o'r athrawon yn adnabod eu disgyblion a'r camau nesaf mewn dysgu yn dda iawn. Yn dilyn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn darparu adborth cyflym sy'n galluogi disgyblion i ymestyn eu dealltwriaeth yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ymwybodol o'u targedau unigol ac yn cyfeirio atynt yn aml. Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn gosod targedau manwl ar gyfer gwelliant cyflym i ddechrau, ac wedyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion nodi eu targedau cynnydd eu hunain. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd ystyrlon rheolaidd i ddisgyblion hunanasesu eu gwaith, yn ogystal â gwaith eu cyfoedion.

Mae'r pennaeth wedi llywio gweledigaeth yr ysgol ar gyfer datblygu cwricwlwm cyffrous a difyr ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae hyn wedi cynnwys pob un o'r staff ac wedi esblygu dros gyfnod, yn dilyn myfyrio ac ymchwil weithredu, i greu 'Ffordd Gellifedw' ('The Birchgrove Way'). Mae'r dull hynod effeithiol hwn yn amlwg ym mhob dosbarth ac yn elwa ar lais gonest y disgyblion, sy'n rhannu eu barn yn agored am sut beth yw bod yn ddysgwyr yn yr ysgol. O ganlyniad, mae arweinwyr wedi creu diwylliant lle mae staff yn mentro'n ofalus â'u haddysgu, sy'n arwain at ailffurfio'r cwricwlwm, yr addysgu a'r amgylchedd dysgu mewn ffordd arloesol.

Mae addysgu medrau allweddol pwysig mewn llythrennedd a rhifedd yn digwydd mewn sesiynau byr, ffocysedig hynod effeithiol. Mae athrawon yn datblygu'r medrau hyn trwy brofiadau dysgu arloesol a chyd-destunau go iawn ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn cyfrannu syniadau cychwynnol ynglŷn â beth fyddant yn ei ddysgu, a sut, ac mae athrawon yn gweu'r rhain yn fedrus mewn gweithgareddau dysgu hynod ddychmygus, er enghraifft wrth archwilio modelau o system dreulio Tuduriaid a Llychlynwyr i ddarganfod o ba gyfnod oeddent, trwy ddadansoddi'r bwydydd roedd y naill a'r llall yn eu bwyta. Ym mhob dosbarth, mae athrawon yn creu ethos o ddisgwyliadau uchel. Maent yn annog disgyblion i ddewis gweithgareddau a lefel her sy'n briodol i'w hanghenion. O ganlyniad, ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yn cynhyrchu gwaith o safon sydd o leiaf gyfwerth â'r gwaith sy'n cael ei greu yn ystod gwersi llythrennedd a rhifedd penodol. Yn benodol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm yn gryf iawn.

Mae arweinwyr yn rheoli'r cwricwlwm yn drylwyr ac yn sicrhau ei fod yn gyson a dilyniadol trwy fapio a monitro ymdriniaeth â medrau pwysig yn ofalus. Mae grwpiau pynciau yn ffurfio meysydd dysgu, ac mae arweinydd pob maes dysgu yn gweithio'n ddychmygus ac ar y cyd â staff. Mae hyn yn meithrin gallu yn yr ysgol, ac yn magu hyder ymhlith bron pob aelod o staff i fentro.

Mae'r ysgol yn cymhwyso egwyddorion y cyfnod sylfaen yn effeithiol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae'r defnydd hynod effeithiol o ddysgu yn yr awyr agored yn y cyfnod sylfaen yn dechrau cael ei gyflwyno yng nghyfnod allweddol 2, gan atgyfnerthu ymhellach yr ymagwedd gyson a dilyniadol a grëwyd gan yr ysgol fel ei 'ffordd'. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei ddatblygu y mae hyn, ac nid yw pob un o'r tasgau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer yr amgylchedd awyr agored yng nghyfnod allweddol 2 yn manteisio'n llawn ar nodweddion dysgu yn y byd naturiol.

Mae'r ysgol yn ystyried ei chyd-destun yng Nghymru a'r byd, ac yn trefnu ymweliadau gwerth chweil gan siaradwyr gwadd i hysbysu ei disgyblion. Mae ymweliadau wedi eu trefnu gan athrawon â lleoedd pwysig yng Nghymru yn cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'i hanes a'i diwylliant. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da i fod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd ehangach.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn gymuned ddigynnwrf a gofalgar iawn, lle mae staff a disgyblion yn dangos lefel eithriadol o barch at ei gilydd. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn, ac yn ymateb yn gyflym, yn sensitif ac yn effeithiol i'w hanghenion emosiynol a'u hanghenion dysgu. Mae ethos hynod gefnogol yr ysgol a'i darpariaeth o ansawdd uchel yn galluogi bron pob un o'r disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu, cydweithrediad cryf a medrau cymdeithasol gwerthfawr.

Mae gan yr ysgol system drylwyr, gynhwysfawr a threfnus i gasglu gwybodaeth am gynnydd a chyflawniadau disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae staff yn defnyddio'r system olrhain yn effeithiol iawn i fonitro cynnydd disgyblion yn eu dosbarth yn rheolaidd. Defnyddiant y wybodaeth hon i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu disgyblion yn ofalus, a nodi unrhyw dangyflawni er mwyn targedu'r cymorth penodol sydd ei angen yn gyflym iawn.

Mae darpariaeth yr ysgol i gynorthwyo disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwannach yn hynod effeithiol. Mae staff yn datblygu cynlluniau unigol teilwredig i ddiwallu anghenion ychwanegol disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio targedau mesuradwy ar gyfer gwella, ac yn olrhain cynnydd disgyblion yn drylwyr. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o raglenni ymyrraeth pwrpasol i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae staff hyfforddedig yn cyflwyno'r rhaglenni yn hynod effeithiol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion targedig yn gwneud cynnydd da iawn o'u mannau cychwyn unigol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn caffael y medrau angenrheidiol i fod yn ddysgwyr annibynnol. Erbyn yr adeg y bydd disgyblion yn gadael yr ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, o leiaf. Mae sesiynau ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar les disgyblion yn effeithiol, ac maent yn galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn gwersi yn llwyddiannus, trwy gyfoethogi eu hunan-barch a'u medrau cydweithredu.

Mae staff yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch a hawl i fod yn rhydd rhag aflonyddwch a gwahaniaethu yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mae'r gwaith hwn yn treiddio'n gryf trwy'r ysgol gyfan.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae ei thîm lles yn monitro pob cinio pecyn ysgol ac yn gwobrwyo'r rhai sy'n ddewr i roi cynnig ar opsiynau newydd iach. Mae staff yn annog disgyblion yn effeithiol i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon rheolaidd trwy ei hystod eang o weithgareddau allgyrsiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd dewis ffordd iach o fyw. Nodwedd gref iawn yn yr ysgol yw'r modd y mae disgyblion yn cynllunio eu dysgu. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn 'cynllunio ein darpariaeth' ar y bwrdd pop, ac yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cynllunio eu cenadaethau eu hunain. Mae staff yn ymateb yn dda i awgrymiadau eu disgyblion. Mae hyn yn golygu bod bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac wedi eu cymell yn dda ynglŷn â'r hyn maent yn ei ddysgu, ac o ganlyniad, maent yn dod yn ddysgwyr gwydn.

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd aros yn ddiogel, er enghraifft trwy amlygu peryglon camddefnyddio sylweddau ac addysgu am reolau diogelwch ar y rhyngrwyd. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Ceir perthynas gref a chynhyrchiol rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw ac yn gweithredu polisi drws agored. O ganlyniad, mae rhieni'n ymwybodol iawn o weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol. Mae staff yn darparu sesiynau hyfforddiant defnyddiol ar gyfer rhieni fel eu bod yn gallu cynorthwyo eu plant gartref, er enghraifft â mathemateg a darllen. Mae cyfraddau da o rieni yn mynychu'r sesiynau hyn, ac maent yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a gânt. Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb yn drylwyr iawn; mae pob un o'r rhanddeiliaid yn deall pwysigrwydd presenoldeb da ac mae hyn yn amlwg yn y lefelau uchel o bresenoldeb a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddeall eu diwylliant a'u treftadaeth trwy deithiau ac ymweliadau wedi'u cynllunio'n dda, sy'n ysbrydoli disgyblion ar ddechrau eu gwaith testun. Mae'r ysgol yn trefnu dawnsiau te llwyddiannus iawn sy'n meithrin dealltwriaeth dda iawn ymhlith disgyblion o brofiadau

pobl hŷn, yn enwedig yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Caiff disgyblion gyfleoedd da i ddeall diwylliannau eraill, er enghraifft trwy addysgu dawns Draig Dsieineaidd i ddisgyblion y cyfnod sylfaen er mwyn dathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i berfformio mewn cyngherddau ac yn yr eisteddfod.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth hynod effeithiol, arloesol a gweddnewidiol ar gyfer yr ysgol. Mae wedi gweithio gyda staff, disgyblion a rhieni i ddatblygu a gweithredu gweledigaeth hynod effeithiol sy'n ysgogi diwylliant o welliant parhaus a safonau uchel o ddysgu a lles i bawb. Mae gweledigaeth yr ysgol yn ymgorffori ymrwymiad â ffocws i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hawliau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion ifanc.

Mae'r pennaeth yn elwa ar gymorth yr uwch dîm arweinyddiaeth hynod effeithiol a medrus y mae wedi'i greu. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion, ac maent yn darparu amgylchedd dysgu gofalgar ac ysgogol i bawb ffynnu ynddo. Mae'r weledigaeth yn amlwg ar draws yr ysgol, ac mae'r nodau craidd i sicrhau bod disgyblion yn mwynhau'r dysgu yn rhan annatod o'r ethos. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn awyddus ac yn llawn cymhelliant i ddysgu, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da iawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn meithrin gallu arwain staff ar bob lefel yn llwyddiannus. Mae gan bob un o'r staff rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, a welir mewn swydd-ddisgrifiadau manwl. Mae bron pob un o'r staff yn ymgymryd â rôl arwain i gefnogi gwelliant. Er enghraifft, mae cynorthwyydd addysgu yn arwain ar gyflwyno strategaethau lleferydd ac iaith penodol, ac yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff eraill. Mae swyddog gweinyddu'r ysgol yn rheoli safle'r ysgol. O ganlyniad, mae pob un o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac maent yn falch iawn o'r cyfraniad cadarnhaol a wnânt at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae gwaith tîm yn gryfder go iawn, ac o'r herwydd, mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, i sicrhau bod ymagweddau cyffredin at bron bob agwedd ar eu gwaith. Er enghraifft, o ganlyniad i'r ffordd gyson y mae staff yn cynnwys llais y disgybl wrth gynllunio a dylunio'r cwricwlwm, mae lefelau ymgysylltiad ac ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol o dda.

Mae arweinwyr yn gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol yn eithriadol o dda. Maent yn rheoli newid yn ystyriol ac ar gyflymdra sefydlog a realistig, sy'n sicrhau bod camau gweithredu wedi'u cynllunio yn arwain at lwyddiant, er enghraifft wrth wella medrau siarad Cymraeg a medrau digidol disgyblion. Yn fwy diweddar, mae gwaith i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru wedi sicrhau bod gan bob un o'r staff a'r disgyblion amgyffrediad ar y cyd o ddibenion y cwricwlwm newydd a'u bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu profiadau dysgu cyffrous, go iawn, yn seiliedig ar syniadau ac anghenion disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn cael blas ar y cyfleoedd sy'n ymestyn eu dysgu ac yn eu galluogi i gymhwyso eu medrau i safon uchel.

Mae gan yr ysgol brosesau hunanwerthuso trylwyr a hanes cyson gryf o ysgogi gwelliannau. Mae arweinwyr yn casglu ystod eang o wybodaeth am waith yr ysgol ac yn defnyddio hyn yn effeithiol i gynllunio blaenoriaethau ar gyfer gwella. Maent yn ceisio barn ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys disgyblion, rhieni a

llywodraethwyr, ac yn ymateb yn bwrpasol i'r hyn y maent yn ei ddweud. Er enghraifft, fe wnaeth arweinwyr wella cyfleoedd i rieni ymweld ag ystafelloedd dosbarth i ddatblygu eu dealltwriaeth o strategaethau addysgu a dysgu er mwyn ymateb i awgrymiadau gan rieni. Mae arweinwyr ac athrawon yn ymarferwyr hynod fyfyriol ac maent yn ymdrechu'n barhaus i ysgogi gwelliannau i waith yr ysgol mewn meysydd pwysig. Yn y blynyddoedd diwethaf, bu gwelliannau rhagorol yn lefelau presenoldeb disgyblion, ac yn eu medrau ysgrifennu.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i'w datblygu ei hun fel sefydliad dysgu. Un o gryfderau nodedig arweinyddiaeth yr ysgol yw'r cyfleoedd cyfoethog y mae'n eu darparu i staff ddatblygu'n broffesiynol. Mae'r ffocws cryf ar ddysgu proffesiynol ac ymchwil weithredu yn adlewyrchu'r flaenoriaeth uchel iawn y mae arweinwyr yn ei rhoi i ddatblygu gwybodaeth a medrau pob un o'r staff yn eu hymdrech i wella. Enghraifft hynod effeithiol o hyn yw'r ffordd y caiff staff eu trefnu'n driawdau er mwyn gwella eu harfer ystafell ddosbarth eu hunain, yn seiliedig ar ymchwil addysgol gyfoes. Mae pob un o'r staff yn rhannu eu canfyddiadau a'u canlyniadau trwy sesiynau proffesiynol wedi'u cynllunio. O ganlyniad i hyn, mae athrawon yn gwella eu harfer eu hunain yn barhaus, ar sail ymchwil gadarn. Yn sgil safonau cyson uchel yr ysgol mewn addysgu a dysgu ac i ddatblygu cwricwlwm arloesol, mae'n darparu hyfforddiant ac yn lledaenu ei harferion eithriadol yn rheolaidd ymhlith gweithwyr proffesiynol eraill.

Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda iawn ac mae ganddynt rôl allweddol mewn sicrhau cyfeiriad strategol effeithiol ar gyfer yr ysgol. Mae eu mewnbwn strategol i weithdrefnau hunanwerthuso yn hynod effeithiol. Mae teithiau dysgu ac ymweliadau rheolaidd â'r ysgol gan lywodraethwyr wedi ymestyn eu gwybodaeth am yr ysgol, yn seiliedig ar wybodaeth uniongyrchol. Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn darparu adroddiadau a chyflwyniadau manwl i lywodraethwyr yn rheolaidd, yn amlinellu gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae gan y corff llywodraethol wybodaeth gynhwysfawr a dealltwriaeth drylwyr o berfformiad yr ysgol, sy'n eu galluogi i fod yn ffrindiau beirniadol effeithiol.

Mae'r pennaeth yn monitro cyllid yn drylwyr, ac fe gaiff gefnogaeth gref gan gynorthwyydd gweinyddu a llywodraethwyr yr ysgol. Maent yn gwneud penderfyniadau darbodus ac yn prynu adnoddau sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn codi safonau disgyblion ym mhob maes. Mae arweinwyr yn dosbarthu cyllid ychwanegol, fel y grant datblygu disgyblion, yn effeithlon i gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y gallai eu hamgylchiadau eu gwneud yn agored i dangyflawni. Er enghraifft, caiff staff eu defnyddio mewn ffordd sy'n cyflwyno rhaglenni ymyrraeth yn effeithiol i ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ag agweddau penodol ar eu dysgu. Ar draws yr ysgol, o ganlyniad i olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da, o leiaf, a chynnydd da iawn, o'u mannau cychwyn, o bryd i'w gilydd.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2020